*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 631 (Cy.68)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Chymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**), ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) a Chymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2013.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2013.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

## RHAN 1

Symiau at Anghenion Personol

**Symiau sydd eu hangen at anghenion personol**

**2.** Y swm y mae awdurdod lleol i ragdybio y bydd ei angen ar berson at ei anghenion personol o dan adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yw £24.50 yr wythnos.

(**1**) 1948 p. 29.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o'r Ddeddf Cymorth Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Dirymu**

**3.** Mae rheoliad 2 o Reoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2012(**3**) wedi ei ddirymu.

# RHAN 2

## Asesu Adnoddau

**Diwygio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992(**4**) wedi eu diwygio yn unol â'r paragraffau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 6 (perthnasau atebol), yn lle "10" rhodder "15".

(3) Ar ôl rheoliad 9 (cyfrifo incwm) mewnosoder—

"**Earnings to be disregarded**

**9A.**—(1) Earnings derived from employment as an employed earner or a self-employed earner are to be disregarded in the calculation of a resident's income.

(2) For the purposes of this Regulation—

(a) "earnings" in relation to an employed earner has the same meaning—

(i) as in regulation 35 of the Housing Benefit Regulations 2006(**5**) or,

(ii) where the earner has attained the qualifying age for state pension credit(**6**), as in regulation 35 of the Housing Benefit (Persons who have attained the qualifying age for state pension credit) Regulations 2006(**7**) (earnings of employed earners); and

(b) "earnings" in relation to a self employed earner has the same meaning as in regulation 37 of the Income Support Regulations(**8**).".

(4) Mae rheoliadau 10 (enillion enillwyr hunangyflogedig), 11 (cyfrifo elw net enillwyr hunangyflogedig), 12 (swm wythnosol elw net enillwyr hunangyflogedig), 13 (enillion enillwyr cyflogedig) a 14 (cyfrifo enillion net enillwyr cyflogedig) wedi eu hepgor.

(5) Ym mharagraff (1) o reoliad 15 (cyfrifo incwm ac eithrio enillion) yn lle "to be taken into account" rhodder "as defined in regulation 9A(2)".

(6) Yn rheoliad 18 (cyfrifo incwm sy'n deillio o gyflogaeth enillwyr cyflogedig ac incwm ac eithrio enillion)—

(a) ym mharagraff (1) hepgorer "net earnings derived from employment as an employed earner and"; a

(b) ym mharagraff (2), yn lle "earnings as an employed earner or income other than earnings are" rhodder "income other than earnings is".

(7) Ym mharagraff (2) o reoliad 20A (Terfyn Cyfalaf — Cymru), yn lle'r ffigur "£23,250" rhodder y ffigur "£23,750.".

(**3**) O.S. 2012/842 (Cy.115).
(**4**) O.S. 1992/2977
(**5**) O.S. 2006/213.
(**6**) Mae'r oed cymwys ar gyfer pensiwn credyd y wladwriaeth wedi ei nodi yn adran 1(6) o Ddeddf Credyd Pensiwn y Wladwriaeth 2002 (p. 16).
(**7**) O.S. 2006/214.
(**8**) Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 O.S. 1987/1967.

(8) Mae Atodlen 2 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo enillion) wedi ei hepgor.

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

15 Mawrth 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012") drwy ddirymu rheoliad 2 o'r Rheoliadau hynny ac yn diwygio Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992 ("y Prif Reoliadau"). Deuant i rym ar 8 Ebrill 2013.

Mae'r Prif Reoliadau yn ymwneud ag asesu gallu person i dalu am lety a drefnir gan awdurdodau lleol o dan Ran 3 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Mae adran 22(4) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth asesu gallu person i dalu am lety o dan Ran 3 o'r Ddeddf, ragdybio, yn niffyg anghenion arbennig, y bydd angen swm rhagnodedig ar berson at ei anghenion personol bob wythnos. Mae rheoliad 2 yn rhagnodi £24.50 fel y swm sydd ei angen at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 3 yn dirymu rheoliad 2 o Reoliadau 2012 a oedd gynt yn rhagnodi'r swm at anghenion personol o dan adran 22(4).

Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Prif Reoliadau i ddiystyru enillion enillwyr cyflogedig a hunangyflogedig wrth gyfrifo'r swm y mae person yn atebol i'w dalu am lety a drefnir o dan Ran 3. Cyflawnir hyn drwy fewnosod rheoliad newydd 9A i ddiystyru enillion enillwyr cyflogedig a hunangyflogedig ac i ddiffinio ystyr "earnings" ymhob achos a thrwy hepgor rheoliadau 10 — 14 yn gynhwysol a hepgor Atodlen 2. Mae diwygiadau canlyniadol wedi eu gwneud i reoliadau 6, 15 a 18 o'r Prif Reoliadau hefyd.

Mae rheoliad 4(7) yn diwygio'r Prif Reoliadau fel bod y terfyn cyfalaf a nodir yn rheoliad 20A yn newid i £23,750. Y terfyn cyfalaf yn rheoliad 20A yw'r swm mwyaf o gyfalaf y caniateir i berson ei gael cyn i'r person hwnnw ddod yn atebol i dalu am y gost o unrhyw lety a drefnir o dan Ran 3 o'r Ddeddf neu i gyfrannu at y gost honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Polisi a Strategaethau Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.